# Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol

gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2023-24

**CRYNODEB O WYBODAETH AR GYFER ASESIADAU O WARIANT SAFONOL 2022-23**

## Rhagymadrodd

Casgliad o dablau a gwybodaeth yw'r deunydd yn y cyhoeddiad hwn, a fwriadwyd i'w defnyddio fel gwybodaeth gefndirol gyffredinol er mwyn cyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs) ar gyfer 2023-24. Cydymaith ystadegol i Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol 2023-24 ydyw. Mae'n rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r SSAs ar gyfer awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru, a gwybodaeth fanwl am y dull o gyfrifo SSAs ar gyfer awdurdodau unedol.

Mae'n bwysig deall bod y crynodeb hwn yn dangos SSAs awdurdodau unedol wedi'u dadansoddi i gategorïau gwasanaeth. Unig bwrpas y dadansoddiad hwn yw cyfrifo cyfanswm yr SSA. Mae gallu awdurdodau unedol a chyrff yr heddlu i bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain yn parhau i fod yn rhan bwysig o system ddosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) Cymru. Felly, ni fwriedir i'r IBAs gwasanaeth a ddangosir yn y cyhoeddiad hwn gael eu defnyddio i bennu'r gwariant a gyllidwyd gan awdurdodau unigol ar gyfer gwasanaethau neilltuol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Gan hynny, efallai na fydd y symiau a'r cyfrifiadau a ddangosir yn ymddangos fel pe baent yn gwbl hafal i'r ffigurau yn y tablau. Mae'r cyfrifiadau yn y modelau SSA yn defnyddio data sydd heb ei dalgrynnu yn bennaf.

## Cefndir

Cesglir y data a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiad yr SSA ar draws y meysydd gwasanaeth o ffynonellau amrywiol, bob blwyddyn gan amlaf. Yr eithriadau i hyn yw'r data ar aneddiadau a'r gwasgariad, sydd yn seiliedig ar Gyfrifiadau 1991 a 2001, a detholiad o ddangosyddion o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Cesglir data arall yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau, gan gynnwys data ar nifer y disgyblion, y ceisiadau cynllunio, yr unedau golau stryd, hydoedd y ffyrdd, hyd yr arfordir, digartrefedd a thai. Darperir data ar nifer yr anheddau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ynghyd â data ar safleoedd bwyd a masnachu. Caiff ffigurau rhagamcanol ar gyfer poblogaeth awdurdodau lleol eu paratoi gan Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol, neu'r amcangyfrif gorau o wariant ar wasanaeth, lle bo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, ac nad yw dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdodau. Mae'r ardollau ar gyfer draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd yr argymhellion eu hymgorffori yn setliad 2001-02 ac mewn setliadau dilynol wrth gwblhau'r dadansoddiadau angenrheidiol, drwy fecanwaith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG).

Gweithgor technegol yw'r DSG sydd yn gweithredu o dan Gyngor Partneriaeth Cymru. Mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, swyddogion llywodraeth leol a ddewiswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac arbenigwyr annibynnol. Bob blwyddyn, bydd y DSG yn cadw at gylch gwaith a rhaglen waith gytunedig sydd yn edrych ar rai o sectorau'r Setliad yn ogystal â meysydd o ddiddordeb penodol, er enghraifft, materion dosbarthu sydd yn gysylltiedig â grantiau penodol sydd dan ystyriaeth i'w trosglwyddo i'r RSG.

**CANLLAW CEFNDIROL I ASESIADAU O WARIANT SAFONOL**

**Cyflwyniad**

1. Bwriedir i Asesiadau o Wariant Safonol adlewyrchu amrywiaeth yn yr angen am wariant, a gellid disgwyl hynny pe bai'r holl awdurdodau'n ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn eu hardal. Dyma'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) i awdurdodau unedol a heddluoedd a fyddai'n eu galluogi i godi'r un dreth gyngor am ddarparu gwasanaeth o safon debyg. Ymdrinnir isod â'r fethodoleg ar gyfer awdurdodau unedol, ond mae egwyddorion tebyg yn berthnasol wrth ddosbarthu cyllid i heddluoedd.

**SSAs a Chyllidebau**

2. Ar raddfa Cymru gyfan, mae cyfanswm yr SSAs yr un peth â chyfanswm cyllidebau tybiedig awdurdodau Cymru. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau ynghylch y cynnydd sylfaenol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog a'r swm gwirioneddol tybiedig a godir drwy'r dreth gyngor, yn dylanwadu ar y cyfanswm cyffredinol. Efallai y bydd cyllideb wirioneddol awdurdod yn uwch neu'n is na'i SSA, gan mai mater i bob awdurdod yw penderfyniadau ynghylch lefelau gwasanaeth a ddarperir.

**Cyllido'r SSA**

3. Mae cyllid yr SSA yn cynnwys tair elfen.

SSA = NDR + CT + RSG

***NDR*** yw dyraniad awdurdod o ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Yng Nghymru, mae hyn yn seiliedig ar gyfran yr awdurdod o'r boblogaeth 18 oed a throsodd.

***CT*** yw cyfanswm yr incwm tybiannol o'r dreth gyngor yn seiliedig ar ffigur treth gyngor safonol wedi'i luosi â nifer yr anheddau o fewn yr awdurdod. Mae'r ffigur safonol ar gyfer y dreth gyngor ym Mand D yr un peth ar gyfer yr holl awdurdodau, ac fe'i gelwir yn ***Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol (CTSS)***. Fe'i cyfrifir ar sail Cymru gyfan drwy ganfod y gwahaniaeth rhwng SSAs cyfanredol a'r ffigurau cyfanredol sydd ar gael ar gyfer dosbarthiad yr RSG a'r NDR, a rhannu hynny â nifer yr anheddau yng Nghymru. Gelwir nifer yr anheddau a ddefnyddir yn ***sylfaen drethu***, ac i bob pwrpas, dyma nifer yr anheddau cyfwerth â Band D o fewn yr awdurdod sydd yn gorfod talu'r dreth gyngor, wedi'i addasu ar sail nifer yr adeiladau ym mhob band treth gyngor. Cyflwynir y ffigur ar ffurf nifer yr adeiladau ym Mand D y dreth gyngor. Mae'r sylfaen drethu felly'n amrywio rhwng awdurdodau'n dibynnu ar nifer a gwerth yr eiddo ym mhob ardal. Ffigur tybiannol yw ***CTSS***, gan fod yr holl awdurdodau lleol yn cyllidebu i gasglu llai o dreth gyngor nag y gellid ei chasglu o'u sylfaen drethu lawn, a chan fod gwariant awdurdodau'n uwch neu'n is na'r SSA. Ariennir gwariant uwch na'r SSA yn gyfan gwbl o'r dreth gyngor ac o ffynonellau incwm lleol eraill.

Swm "cydbwyso" yw'r ***RSG***, sydd yn ychwanegu at y symiau sydd ar gael o'r NDR a'r Dreth Gyngor, ac sy'n galluogi awdurdod i wario'n unol â'i SSA.

**Cydrannau Unigol yr SSA**

4. I ddibenion cyfrifo dyraniadau SSA unigol, dadansoddir gwariant refeniw net y llywodraeth leol i 53 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Pennir dull dosbarthu ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth ar draws yr awdurdodau. Mae'r dulliau dosbarthu wedi'u rhannu i ddau gategori:

   - Fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen
   - Dosbarthiad sydd yn seiliedig ar wariant gwirioneddol neu amcangyfrifon o wariant.

5. Mae'r holl gydrannau "heb eu neilltuo" - ffigurau tybiannol yr ydynt a ddefnyddir fel blociau i adeiladu'r SSA cyffredinol: **nid ydynt yn cynrychioli targedau gwariant ar gyfer gwasanaethau unigol, ac ni fwriedir iddynt ragnodi gwariant o gwbl.**

**Diffinio Cyfansymiau Gwasanaeth**

6. Rhennir y cyfanswm sydd ar gael i'w ddosbarthu fel SSA i ddwy elfen:

   - *gwariant cyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael ar gyfer gwariant ar wasanaethau refeniw cyfredol, ee, costau addysgu
   - *gwariant anghyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael i gyllido dyledion a chydrannau eraill anghyfredol. Yn 2004-05, cyflwynwyd y system benthyca darbodus i ddisodli'r system cymeradwyo credyd.

7. Caiff cyfansymiau ar gyfer cydrannau anghyfredol eu cyfrifo ar raddfa Cymru gyfan y tu allan i fformiwla'r SSA, ac maent yn seiliedig ar y symiau y mae awdurdodau wedi'u benthyca yn y gorffennol plws unrhyw ddyled newydd. Cyfrifir y cyfanswm ar gyfer gwariant cyfredol (yr SSA cyfredol) drwy ddidynnu hyn o'r cyfanswm cyffredinol. Gelwir y gwasanaethau sydd yn rhan o'r SSA cyfredol eu gelwir yn 'wasanaethau cyfredol'.

8. O’r SSA presennol, mae rhai elfennau sector lle mae cyfanswm y sector wedi’i ragnodi, megis Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a’r Grant Amddifadedd. Gelwir y rhain yn ffigurau gwirioneddol y sector ac maent yn cael eu tynnu o’r SSA presennol cyn i’r data Cyfrif Refeniw gael ei ddefnyddio i bennu gweddill cyfansymiau’r sector. Roedd cyfrif setliad 2023-24 yn defnyddio data Cyfrif Refeniw 2022-23.

9. Mae cyfansymiau gwasanaeth o fewn pob sector ar gyfer gweddill y gwasanaethau cyfredol yn deillio o'r data alldro diweddaraf sydd ar gael ar gyfer gwariant. Defnyddiwyd data gwariant alldro 2019-20 ar gyfer cyfrifiadau setliad 2023-24.


10. Nid oes data gwariant alldro perthnasol ar gyfer rhai swyddogaethau awdurdod lleol, er enghraifft y rhai sydd wedi bodoli ers llai na dwy flynedd. Mae gan y gwasanaethau sydd yn ymwneud â'r swyddogaethau hyn gyfansymiau wedi'u diffinio, sy'n cael eu bwydo i gyfrifiad yr SSA, ac a elwir yn ffigurau gwirioneddol gwasanaeth. Ar wahân i hyn, maent yn cael eu trin yn yr un modd â gwasanaethau eraill.

11. Didynnir cyfansymiau ar gyfer ffigurau gwirioneddol gwasanaeth o gyfanswm sector yr SSA cyfredol perthnasol. Dosberthir y swm sydd yn weddill ymhlith y gwasanaethau eraill,

yn dibynnu ar eu cyfran o'r alldro.  Ceir dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol yn Ffigur 1.

12. Mae seilio'r dull hwn ar wasanaethau yn fodd i leihau effaith penderfyniadau gwario awdurdodau unigol ar ddosbarthiad yr SSA.  Dim ond rhan o gyfanswm terfynol yr SSA yw pob gwasanaeth, ac ar gyfer pob gwasanaeth, nid yw elfen pob awdurdod unedol ond wedi'i bennu yn nhermau dangosydd angen.

**Ffigur 1: Dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol ar gyfer 2023-24**




Mae cyfansymiau gwariant gwasanaethau wedi'u graddio i sicrhau bod y swm yn hafal i'r cyfanswm ar gyfer blwyddyn y Setliad.

**Dosbarthu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen**

13. Dosberthir y rhan fwyaf o wasanaethau ar sail fformiwla sydd yn cynnwys dangosyddion angen.  Defnyddir dangosyddion angen yn hytrach na dulliau uniongyrchol o fesur y defnydd o wasanaethau, fel nad oes modd i awdurdodau gael dylanwad uniongyrchol ar eu SSAs, ac ar swm y grant y maent yn ei dderbyn yn sgil hynny.  Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwlâu yn perthyn i dri chategori.

- *Prif grŵp cleientiaid* – Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar y gost, ee. poblogaeth, niferoedd disgyblion neu hyd ffyrdd.

- *Amddifadedd* – Dangosyddion i adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau lle ceir lefelau uwch o amddifadedd, e.e. derbynwyr cymhorthdal incwm, pobl â salwch hirdymor.

- *Gwasgariad y boblogaeth* – Dangosyddion i adlewyrchu cost ychwanegol darparu gwasanaethau i boblogaethau mewn ardaloedd llai poblog. Datblygwyd dulliau o fesur gwasgariad y boblogaeth i'w defnyddio'n benodol ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol Cymru, ar sail patrwm aneddiadau yng Nghymru.

14. Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd argymhellion y gwaith hwn eu gweithredu yn setliadau 2001-02 ac mewn setliadau dilynol. Cynhaliwyd adolygiad mawr o brif fformiwlâu PSS yn 2004, gyda'r fformiwlâu newydd ar gyfer 'plant a phobl ifanc' a 'gwasanaethau i oedolion hŷn yn cael eu hymgorffori yn Setliad 2005-06, ac ar gyfer 'oedolion iau' yn setliad 2007-08.

15. Defnyddiwyd dulliau modelu ystadegol yn bennaf i greu'r fformiwlâu, ond nid oedd modd gwneud hynny ar gyfer ambell wasanaeth, gan fod y patrwm gwariant ar draws awdurdodau yn amrywio i'r fath raddau, fel bod angen datblygu fformiwla yn seiliedig ar farn ddeallus. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer gwasanaethau newydd, lle nad oes data gwariant ar gael, fel bo modd defnyddio modelau ystadegol i greu fformiwla.

16. Nid oes gan rai gwasanaethau eu fformiwla eu hunain, ond fe'u dosberthir ar sail fformiwla gwasanaeth cysylltiedig. Bydd hyn yn digwydd yn aml yn achos gwasanaeth newydd pan nad yw patrymau gwariant yn hysbys eto, felly defnyddir fformiwla'r gwasanaeth sydd yn fwyaf tebyg i'r gwasanaeth newydd. Defnyddir y dull hwn hefyd ar gyfer rhai swyddogaethau cyffredinol, fel gweinyddu, a ddosberthir ar sail gwasanaethau perthnasol, ee, dosberthir gweinyddiaeth addysg ar sail yr SSAs ar gyfer yr holl wasanaethau addysg.

17. Rhestrir cyfran y cyllid ar gyfer pob awdurdod ar ffurf canran yn yr adrannau ar Asesiadau ar Sail Dangosydd (IBAs) ar gyfer gwasanaethau a sectorau. Dengys hyn y pwysoliad a roddwyd i bob awdurdod ar sail y Prif Ddangosydd Cyfansawdd (CPI). Cyfrifir y CPI drwy luosi gwerth dangosydd pob awdurdod â'r pwysoliad a ddangosir yn y fformiwla. Ailadroddir hyn ar gyfer pob rhan o'r fformiwla, gan greu cyfanswm wedyn o'r gwerthoedd canlyniadol. Caiff y cyfanswm ei rannu â'r gwerth ar gyfer Cymru a'i ddefnyddio i gyfrifo cyfran ganrannol y cyllid ar gyfer pob awdurdod.

18. Caiff elfen cyllido cyfalaf SSA awdurdod ei modelu ar wahân. Cyflwynwyd y system benthyca darbodus yn 2004-05. Bydd dyled a ysgwyddwyd o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2004 yn cael eu diddymu ar sail balans sydd yn gostwng dros 25 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru'n asesu pa fenthyciadau newydd y mae'n barod i'w cefnogi, ac yn cynnwys hyn yn y cyfrifiadau, ynghyd â dyled a ysgwyddwyd eisoes o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Ceir hefyd addasiadau ar gyfer grantiau a ddarparwyd gan y llywodraeth ganolog i ddibenion cyllido cyfalaf.

**Dosbarthu drwy ddefnyddio gwariant**

19. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol ar wasanaeth (neu'r amcangyfrif gorau posib o hynny). Dyma fydd yn digwydd pan fo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, a heb fod o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod. Mae ardollau draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

**Crynodeb**

20. Cyfrifir cyfanswm SSA awdurdod fel swm yr SSA Cyfredol a'r elfennau cyllido dyledion.

21. Mae'r canlynol yn creu sail ar gyfer y system.

- Pennir maint cyffredinol y Setliad ar sail cyfansymiau rheolaeth y llywodraeth.
- Pennir pwysau cymharol y gwasanaethau yn ôl patrymau gwariant gwirioneddol ar raddfa Cymru gyfan.
- Defnyddir dangosyddion gwrthrychol o angen cymharol awdurdodau i wario er mwyn penderfynu ar ddosbarthiad o fewn gwasanaethau fel arfer.
- Nid targedau gwariant ar gyfer awdurdodau yw SSAs a gwasanaethau cydrannol. Nid ydynt ond yn gyfrwng i ddosbarthu grant.